Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiadau hwylus

## Ecosystemau a'r Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem

Mawrth 2012

## Cyflwyniad

Ym mis Ionawr 2012 lansiodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori sef 'Cynnal Cymru Fyw – Papur gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru'. Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn esbonio rhai o'r termau cyffredin a ddefnyddir fel rhan o'r 'dull ecosystem' newydd o gadw a rheoli natur.

## Beth yw ecosystem?

Mae'r term ecosystem yn cyfeirio at gymuned o blanhigion, anifeiliaid ac organebau llai sy'n byw, bwydo ac atgynhyrchu mewn ardal benodol, a'r ffordd y mae'r cymunedau hyn yn rhyngweithio ag elfennau anfyw eraill fel y tywydd, dŵr a phriddoedd[1].

Caiff ecosystemau eu diffinio fel arfer yn nhermau eu llystyfiant neu eu nodweddion amgylcheddol[2] pwysicaf. Mae disgrifio a diffinio'r byd naturiol yn nhermau ecosystemau yn caniatáu i ni **gloriannu'r amgylchedd i weddu i'n buddiannau**.

Gall ecosystemau, fel y cyfryw, **fod o unrhyw faint**[3] yn dibynnu ar y cwestiwn sy'n cael ei ofyn neu'r penderfyniad sy'n cael ei wneud. Gallant fod yn ardaloedd bach a lleol, fel pyllau neu berthi, yn ardaloedd canolig fel ffermydd, llynnoedd neu laswelltir, neu'n ardaloedd mawr iawn fel y rheini a nodwyd gan Asesiad Ecosystem y Mileniwm[4]. Mae'r rhain yn cynnwys:

> **Morol** – y cefnfor; **Dŵr Mewndirol** – cyrff dŵr parhaol i mewn i'r tir o'r parth arfordirol; **Coedwig** – tir coediog; **Mynydd** – tiroedd serth ac uchel; **Tir amaethyddol** – tiroedd y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys rhywogaethau o blanhigion domestig; a **Threfol** – amgylcheddau wedi'u hadeiladu, gyda dwysedd dynol uchel.

## Beth yw cryfder yr ecosystem?

Caiff cryfder yr ecosystem ei fesur yn ôl y graddau y gall **ymateb i aflonyddwch** trwy wrthsefyll niwed a gwella'n gyflym. Mae cryfder yn bwysig gan ei fod yn helpu i leihau effeithiau negyddol posibl aflonyddwch.

---

[1] Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur, *About Biodiversity*, [fel ar 15 Chwefror 2012].
[2] Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU, *Ecosystems*, [fel ar 10 Chwefror 2012].
[3] *ibid*
[4] Asesiad Ecosystem y Mileniwm, *Ecosystems and Their Services*, [fel ar 10 Chwefror 2012]. Mae Asesiad Ecosystem y Mileniwm a ddechreuwyd yn 2001 ac y gofynnwyd amdano gan y Cenhedloedd Unedig, yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o holl ecosystemau'r byd a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Mae aflonyddwch yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau **naturiol ac annaturiol** gan gynnwys tannau, llifogydd, stormydd, datgoedwigo, gorbori, tynnu dŵr neu gyflwyno rhywogaethau anfrodorol, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain.

Gall aflonyddwch arwain at gyflwyno neu golli elfennau o fewn yr ecosystem. Gall hyn fod â chanlyniadau dramatig drwy achosi marwolaeth neu ddadleoliad rhai rhywogaethau o fewn yr ecosystem, neu drwy newid y ffordd mae rhannau o'r ecosystem yn rhyngweithio â'i gilydd[5]. Gall y newidiadau hyn fod yn **anwrthdroadwy** a gallant fod â chanlyniadau taro ymlaen i weithrediad yr ecosystem a'i gallu i ddarparu gwasanaethau ecosystem allweddol.

**Yng Nghymru,** y **prif fygythiadau**[6] i gryfder yr ecosystem yw newid yn yr hinsawdd, colli cynefinoedd a diraddiad, llygredd, datblygiad, newidiadau mewn arferion ffermio, rhywogaethau ymwthiol amrodorol a throsedd bywyd gwyll. Mae'r cyfan yn dryllio cynefinoedd, yn lleihau poblogaethau bywyd gwyllt brodorol ac yn cynyddu gwendid yr ecosystemau hyn.

## Beth a olygir gan wasanaethau ecosystemau?

Mae Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU yn nodi mai gwasanaethau ecosystemau yw '**y manteision a ddarperir gan ecosystemau ac sy'n cyfrannu at wneud bywyd yn bosibl ac yn werth ei fyw**'[7].

Cafodd y cysyniad o wasanaethau ecosystemau ei ddatblygu i wella dealltwriaeth o'r effaith y mae ecosystemau'n eu cael ar fywydau pobl ac i helpu i arwain defnydd a rheolaeth dyn o adnoddau naturiol y ddaear[8].

Caiff gwasanaethau ecosystemau eu grwpio i bedwar prif gategori[9]:

- **Gwasanaethau Cynnal** – nid o fantais uniongyrchol i bobl, ond yn hanfodol i weithrediad ecosystemau ac felly maent yn gyfrifol yn anuniongyrchol am bob gwasanaeth arall. Maent yn cynnwys cylchu dŵr, ailgylchu maethynnau, ffurfio pridd a phrosesau tyfu planhigion;
- **Gwasanaethau Rheoli** –yn aml ni phriodolir gwerth ariannol gwirioneddol iddynt mewn marchnadoedd confensiynol, ond maent o fantais uniongyrchol i bobl. Maent yn cynnwys rheoli'r hinsawdd, llifogydd, ansawdd dŵr, ansawdd aer, erydu a pheillio;
- **Gwasanaethau Darparu** – cyflenwi nwyddau sydd o fantais uniongyrchol i bobl. Maent yn cynnwys bwyd, pren, dŵr ffres, tanwydd a chynhyrchion fferyllol; a
- **Gwasanaethau Diwylliannol** – mantais uniongyrchol anfaterol o bwys enfawr i anghenion cymdeithasol a diwylliannol ehangach cymdeithas. Maent yn cynnwys mannau hamdden, twristiaeth, cyfoethogi ysbrydol, ysbrydoliaeth, adlewyrchiad a chyflogaeth.

---

[5] Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig, *Biodiversity, Ecosystems and Resilience: Governance for a future with Global Changes*, Medi 2009, [fel ar 9 Chwefror 2012].
[6] Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, *Bygythiadau Cyfoes*, [fel ar 9 Chwefror 2012].
[7] Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU, *Ecosystem Services*, [fel ar 10 Chwefror 2012].
[8] Gwasanaethau Ecosystemau: byw o fewn ein cyfyngiadau amgylcheddol, *What are ecosystem services?*, [fel ar 9 Chwefror 2012].
[9] Y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, *Factsheet on Ecosystem Services*, [fel ar 9 Chwefror 2012].

## Beth yw'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem?

Y dull rheoli ar lefel yr ecosystem yw '**Strategaeth ar gyfer rheolaeth integredig o dir, dŵr ac adnoddau byw ac sy'n hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy o dir mewn ffordd deg'**[10].

Mae'r dull hwn yn gwneud y **cysylltiad** yn glir rhwng y gwasanaethau sy'n cefnogi bywyd a lles dynol a chyflwr adnoddau naturiol y ddaear.

### Llywodraeth Cymru a rheoli adnoddau naturiol

Mae '*Papur Gwyrdd Cynnal Cymru Fyw*', Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012 yn cynnig dull yr ecosystem o reoli adnoddau naturiol Cymru er mwyn bodloni'r nod heriol o sicrhau 'ecosystemau iach, cryf a chynhyrchiol sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac sy'n darparu ar gyfer cymdeithas yn ei chyfanrwydd, gan gefnogi cyflogaeth a lles'[11]. Mae'r dull hwn yn caniatáu **unioni rheolaeth o adnoddau naturiol** o ystyried rhannau unigol i ystyried yr amgylchedd yn ei chyfanrwydd. Mae'n caniatáu **cwmpas** llawer **ehangach i** reoli'r defnydd o dir a gwneud penderfyniadau sy'n mynd y tu hwnt i'r amgylchedd naturiol ei hun ac mae'n cynnwys **ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n integreiddio gwasanaethau ecosystemau**[12].

## Beth yw bioamrywiaeth a sut y caiff ei fesur?

Yn ei hanfod, mae amrywiaeth biolegol yn cyfeirio at yr **amrywiaeth o fywyd ar y ddaear** ac mae'n cynnwys yr holl blanhigion, anifeiliaid ffyngau a micro-organebau sydd ar y ddaear yn ogystal â'r mannau lle maent yn byw. Yn ôl yr Undeb Ryngwladol er Gwarchod Natur (IUCN), mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at yr 'amrywiaeth eang o ecosystemau ac organebau byw: anifeiliaid, planhigion, eu cynefinoedd a'u genynnau'[13].

Gan amlaf, caiff bioamrywiaeth ei ystyried fel nifer y rhywogaethau mewn ardal. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae amrywiaeth o fewn rhywogaeth a'r amrywiaeth rhwng ecosystemau'r un mor bwysig[14]. O gofio hyn, mae tri phrif fesur o fioamrywiaeth:

1. **Yr amrywiaeth rywogaethau** – y nifer a'r cyflenwad o wahanol rywogaethau;
2. **Yr amrywiaeth enynnol** – yr amrywiaeth rhwng unigolion o'r un rhywogaeth; ac
3. **Yr amrywiaeth gynefinoedd** – yr amrywiaeth mewn ecosystemau.

## Pam bod bioamrywiaeth o bwys i ecosystemau?

Yn ôl Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, mae bioamrywiaeth yn '**tanategu gweithrediad ecosystemau a'r ddarpariaeth o wasanaethau ecosystemau'**[15].

---

[10] Y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, *The Ecosystem Approach*, [fel ar 10 Chwefror 2012].
[11] Llywodraeth Cymru, *Cynnal Cymru Fyw Papur Gwyrdd*, 30 Ionawr 2012, [fel ar 10 Chwefror 2012].
[12] Nodyn POST, *The Ecosystem Approach*, Mai 2011, [fel ar 10 Chwefror 2012].
[13] Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur, *About Biodiversity*, [fel ar 15 Chwefror 2012].
[14] Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig, *Biodiversity, Ecosystems and Resilience: Governance for a future with Global Changes*, Medi 2009, [fel ar 9 Chwefror 2012].

Mae gan bob organeb o fewn ecosystem ran bwysig i'w chwarae ac mae'n gysylltiedig â phob organeb arall drwy rwydwaith gymhleth o ryngweithiadau . Mae bioamrywiaeth yn hybu **cynhyrchiant ecosystemau**, mae'n cynnal **ansawdd ac amrywiaeth yn y gwasanaethau** y mae pobl yn eu cael ac mae'n sicrhau bod ecosystemau'n gallu **gwrthsefyll** aflonyddwch yn well.

Gall **colli bioamrywiaeth** fod â chanlyniadau enfawr i les dynol ac i'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt, fel bygwth cyflenwad bwyd a thwristiaeth, yn ogystal ag ymyrryd â swyddogaethau ecosystemau hanfodol sy'n darparu llawer o'r gwasanaethau cynnal gwaelodol[16].

## A ellir rhoi gwerth ar wasanaethau ecosystemau?

Amcangyfrifodd astudiaeth a wnaed yn 2001 gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol fod yr amgylchedd yn cyfrannu **9% o gyfanswm cynnyrch mewnwladol crynswth Cymru**, gan gyflenwi'n uniongyrchol gwerth **£8.8 biliwn** o nwyddau a gwasanaethau, **1 ym mhob 6 swydd** a chyflogau gwerth £1.8 biliwn[17].

Gwasanaethau diwylliannol a ddarperir gan ecosystemau yw un o'r gwasanaethau hawddaf y gellir priodoli gwerth iddynt oherwydd yr incwm uniongyrchol a dderbynnir o dwristiaeth a gweithgareddau hamdden. Mae Adroddiad Technegol Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU[18] yn nodi bod cyfartaledd o **£753 miliwn y flwyddyn yn dod i Gymru bob blwyddyn drwy dwristiaeth** yn unig, gydag effaith ehangach twristiaeth wedi'i amcangyfrif oddeutu £4.2 biliwn yn 2007 ac yn cefnogi oddeutu **78,000 o swyddi**[19]. Mae genweirio hamdden yn unig yn werth dros £100 miliwn i economi Cymru.

## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am Ecosystemau a'r Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@cymru.gsi.gov.uk**), Y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- Y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol
- Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU
- Asesiad Ecosystem y Mileniwm
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
- Llywodraeth Cymru, yr Amgylchedd a Chefn Gwlad

Gweler ein rhestr lawn o **hysbysiadau hwylus** yma.

**Rhif ymholiad: 12/0432 Angela Watkins**

[15] Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, *High Level Meeting of General Assembly as a contribution to the International Year of the Biodiversity*, 22 Medi 2010, [fel ar 10 Chwefror 2012].
[16] Y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, *About Biodiversity: Value of Biodiversity and Ecosystem Services*, [fel ar 10 Chwefror 2012].
[17] Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU: Adroddiad Technegol, Mehefin 2011, Pennod 20, [fel ar 15 Chwefror 2012}
[18] *ibid*
[19] Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU: Adroddiad Technegol, *Chapter 20 Status and Changes to the UK Ecosystems and their Services to Society: Wales*, [fel ar 15 Chwefror 2012].